

DATHLU'R PENBLWYDD

Mae gan Gadeirydd Pwyllgor Cerdd Dant lleol Eisteddfod Y Bala, Arfon Williams, reswm da i edrych ymlaen at fis Awst. Mae niferoedd y cystadleuwyr, meddai, yn anarferol o uchel, ac mae mwy nag arfer o weithgareddau eraill cerdd dant ar y maes hefyd. Mae deg parti cerdd dant yn cystadlu, saith côr, 15 o driawdau a 18 o ddeuwadau!

Yn y **cyngerdd agoriadol** ar y nos Wener gyntaf bydd y côr Meibion Unedig cerdd dant, yn cynnwys tua 150 o gantorion, yn ymddangos, dan arweiniad Dan Puw.

Bydd dau ddiwyddiad ar y dydd Iau yn y Babell Lân – **Rhaglen Deyrnged i Gerallt Lloyd Owen** am 1.45 ac yna am 5.30, ail berfformiad **Dan y Wenallt** (Dylan Thomas/Bethan Bryn) - fersiwn fyrrach nag un Aberystwyth.

Drwy gydol yr wythnos yn y **Lle Celf** bydd rhywbeth gwahanol iawn – a dadleuol efallai – sef “arddangosfa aml-gyfyngol” o waith celf Christine Mills ynghyd â cherddoriaeth Guto Puw. I gydfynd â'r arddangosfa, bob hyn a hyn drwy'r wythnos bydd perfformiadau gan Ann Atkinson, Andrea Parry ac Einir Wyn Hughes.

Ar y dydd Mercher am 11.00 yn y Tŷ Gwerin (gweler y manylion ar y dde) fe fydd **sesiwn agored o gyd-ganu cerdd dant** – hollol anffurfiol – gyda Rhiannon Ifan, Arfon Gwilym a Dylan Cernyw.

CROESO I'R “Tŷ GWERIN”

Bydd Eisteddfod Y Bala eleni yn arloesol mewn un ffordd arbennig – am y tro cyntaf erioed bydd pump o fudiadau yn dod ynghyd o dan yr un to, pedwar o'r mudiadau hynny yn ymwneud yn uniongyrchol gyda cherddoriaeth draddodiadol Cymru.

Y pump yw:

Y Gymdeithas Gerdd Dant; Clera (y Gymdeithas Offerynnau Traddodiadol); **Y Gymdeithas Alawon Gwerin; Trac** (y corff datblygu traddodiadol); a **Tŷ Cerdd**, (sy'n cynnwys y Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur).

Un o'r pethau pwysicaf am y babell newydd fydd y llecyn ar gyfer cynnal gweithdai, sesiynau canu, sesiynau offerynnol ac ymarferion – rhywbeth y mae'r Eisteddfod ei hun yn gefnogol iawn iddo.

*Peidwch a dod i'r Eisteddfod heb alw!
Bydd yn gyfle i gael eich 'Allwedd' ac i ail-ymaelodi yn ôl yr arfer.*

Agorir drws y Tŷ Gwerin yn swyddogol gan y Gweinidog Treftadaeth, Alun Ffred Jones, am 11.00 dydd Sadwrn, Awst 1af.

HEI! WYT TI'N AELOD?

Bydd y gymdeithas yn ymroi yn awr i gael aelodau newydd, ond hefyd i wneud yn siwr fod pawb yn talu'n flynyddol!

TELERAU ARBENNIG I BOBL IFANC: DIM OND £5!

(pawb sydd mewn addysg llawn amser)
TELERAU I BAWB ARALL : £10

Mae ymaelodi yn hawdd ac yn rhad, a byddi'n rhan o un o gymdeithasau diwylliannol mwyaf blaengar Cymru!

SYLWER: Cymorth i osodwyr

Os ydych yn aelod byddwch yn derbyn copi o Allwedd y Tannau, sy'n cynnwys cyfarwyddiadau a chanllawiau sut i osod darnau Eisteddfod yr Urdd.

STEDDFOD Y BALA: DYDDIADUR CERDD DANTIWR

Nos Wener, Gorffennaf 31 – cyfle i glywed Côr mawr cerdd dant yng nghyngerdd agoriadol yr Eisteddfod.

Dydd Mercher, Awst 5 am 11.00 – sesiwn o gyd-ganu cerdd dant yn y Tŷ Gwerin gyda Rhiannon Ifan, Arfon Gwilym a Dylan Cernyw

Prynhawn Iau, Awst 6 am 1.45 – Teyrnged i Gerallt Lloyd Owen yn y Babell Lân

Prynhawn Iau, Awst 6 am 5.30 – Dan y Wenallt (addasiad Bethan Bryn) yn y Babell Lân

Drwy gydol yr wythnos yn y Lle Celf – “Hadau”, arddangosfa aml-gyfyngol yr arlunydd Christine Mills a'r cerddor Guto Puw. Perfformiadau achlysurol gan Ann Atkinson, Andrea Parry ac Einir Wyn Hughes (telyn)

Y CYSTADLU

(amseroedd llwyfan)

Dydd Llun

Unawd dan 12, 12.50

Dydd Mawrth

Unawd 16-21, 11.15

Dydd Mercher

Unawd 16-21, 11.15

Parti dan 25, 7.40

Dydd Iau

Deuawd dan 21, 10.20

Triawd/Pedwarawd, 12.30

Deuawd dros 21, 4.00

Dydd Gwener

Parti Agored, 1.35

Côr Agored, 6.40

Dydd Sadwrn

Unawd agored, 5.10

Digwyddiadau nesaf

Cwrs Gosod: Medi 11-13

Cyfarfod Blynyddol: Hydref 3 yn Neuadd Llandegfan, Môn

Cynhyrchwyd a golygwyd y rhifyn hwn gan Arfon Gwilym, Menai Williams a Nia Tudur

Y CERDD DANTIWR

Bwletin Newyddion Cymdeithas Cerdd Dant Cymru

Rhif 2, Gorffennaf 2009



Croeso...a diolch



Ym mlwyddyn ei phenblwydd yn 75 oed, mae'r Gymdeithas Gerdd Dant wedi mynd ati i ad-drefnu ac i geisio gosod seiliau cadarn at y dyfodol.

Penodwyd Sion Gwilym (uchod) o Lansadwrn ym Môn yn Swyddog Gweinyddol newydd. Roedd yn cychwyn ar ei waith ddechrau mis Gorffennaf, ychydig ddyddiau yn unig ar ôl graddio ym Mhrifysgol Caergrawnt. Bydd Sion hefyd yn ysgwyddo rhywfaint o waith datblygu'r gymdeithas yn y blynyddoedd nesaf.

Bydd Dewi Jones felly yn rhydd i ganolbwyntio yn llwyr o hyn ymlaen ar



drefnu'r Wyl Gerdd Dant, gwaith y mae wedi ei gyflawni'n effeithiol ar hyd y blynyddoedd. Bydd y ddau swyddog yn cael eu cyflogi'n rhan-amser gan y Gymdeithas, ar yr un telerau â'i gilydd.

Mewn noson arbennig yn Y Bala ym Mehefin, diolchwyd i Dewi (uchod) am ei deyrngarwch i'r gymdeithas ac am ei holl waith dros gyfnod hir o amser – a phwysleisiwyd nad yw yn ymddeol eto! Cyflwynwyd englyn o waith Myrddin ap Dafydd iddo fel anrheg.

Felly croeso i Sion a diolch i Dewi.
Pob lwc i'r ddau.

COLLI UN O'R CEWRI

Bythefnos yn unig cyn Eisteddfod Y Bala daeth y newydd trist am farwolaeth Emrys Jones, Llangwm, un o gymwynaswyr mawr y byd cerdd dant. Bydd colled enfawr ar ei ôl. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â'r teulu i gyd.



Cofiwch alw yn ein pabell yn y Brifwyl – pabell Tŷ GWERIN



DAN Y WENALLT

Neuadd Fawr, Aberystwyth
27 Mehefin, 2009



Cychwynnodd dathliadau pen blwydd y Gymdeithas mewn steil gyda pherfformiad gwych o 'Dan y Wenallt' ar gerdd dant. Noson i'w chofio yn wir. Longyfarchiadau i Bethan Bryn am ei gwaith anhygoel, ond hefyd i'r holl bobl a gymerodd ran (roedd tua 90 o bobl ar y llwyfan!), a hefyd i gwmni Arad Goch am y gwaith trefnu a chyfarwyddo. Bydd cyfle arall i weld rhan ohono yn Eisteddfod Y Bala.

CASNEWYDD ELENI – YNA BANGOR YN 2010

Neges gan
ELIN MAHER:



Braint yw eich cyfarch, gyd gerdd-dantwyr a hynny ond ychydig fisoedd cyn bod yr Ŵyl yn dod i Gasnewydd.

Yr ydym yn edrych ymlaen yn arw at groesawu cerdd-dantwyr Cymru i'r de-ddwyrain i ddod i adnabod ardal hynafol Gymreig, ardal sy'n medru brolio noddwr Dafydd ap Gwilym, sef Ifor Hael, ardal sy'n llawn olion Rhufeinig Caerllion a'r cyffiniau. Mae gan yr ardal hanes cyfoethog ac mae'r ddinas ifanc yn tyfu ac esblygu mewn nifer o ffyrdd.

Mae gwahodd gŵyl genedlaethol i ardal fel Casnewydd yn bwysig iawn. Mae'n bwysig i ni'r trigolion lleol i sicrhau ein bod yn cael y chwistrell o Gymreictod dwys i'n hybu i barhau ac i gadarnhau fod ein gwaith werth bob munud. Mae'n bwysig i drigolion lleol sydd ddim yn gyfarwydd â'r Ŵyl i gael blas o gerdd dant a thraddodiad gwerin Cymru efallai am y tro cyntaf un. Mae hefyd yn bwysig i chi, gerdd-dantwyr Cymru ddod i ymuno â ni mewn ardal lle mae'r Gymraeg yn ennill tir yn ddyddiol.

Dewch, yn gystadleuwyr, yn gefnogwyr. Mae'r testunau i'w gweld ar wefan y Gymdeithas Cerdd Dant. Dewch yn llu!

Yn ei gywydd croeso mae Robat Powel yn sôn am "Dŷ Ifor" ac yn dweud mai "Teulu iaith yw'r tulathau, geirfa hil sy'n ei gryfhau" a'n gobaith ni yw y dewch chi, ein teulu, i ymuno â ni yn Nhŷ Casnewydd ar Dachwedd y 14^{eg} eleni, i forio canu a dathlu.

Yn y cyfamser, gallwn gyhoeddi mai ym Mangor y cynhelir Gŵyl Gerdd Dant 2010: Gŵyl Glannau Menai.

Mae'r trefniadau eisoes ar y gweill ar gyfer Cyngerdd Cyhoeddi mawreddog ar **Hydref 10fed eleni** – cofiwch y dyddiad! Yn cymryd rhan fydd Cŵr Seiriol, Hogia'r Ddwylan, Ysgol Glanaethwy, Y Glerorfa, Lucy Kelly a Dawnsywyr Môn.

Y CERDD DANTIWR

Ymddangosodd y bwletin hwn gyntaf yng Ngŵyl Gerdd Dant Dyffryn Clwyd, Y Rhyl – fel tipyn o arbrwf. Dyma'r ail rifyn, sy'n mynd allan i bob aelod gyda'r cylchlythyr blynyddol. Efallai mai cyhoeddi ddwywaith y flwyddyn fel hyn fydd y patrwm – mae'n dibynnu ar eich ymateb chi i raddau helaeth. Croeso i unrhyw sylwadau.

NEGES GAN NIA



ac mae'r brwdfrydedd a'r awydd i gadw a datblygu'r hen draddodiad yn sicr yn parhau.

Bydd y wefr o gymryd rhan ym mherfformiad 'Dan y Wenallt' ddiwedd mehefin yn aros yn y cof am amser hir. Longyfarchwn Bethan Bryn ar ei champwaith, a does dim amheuaeth, yn ôl ymateb y gynulleidfa, bod pawb wedi gwerthfawrogi a mwynhau.

Rydym yn dechrau yn awr ar gyfnod newydd yn hanes y Gymdeithas, gyda Dewi a Sion wrth y llyw. Dymuniadau gorau i Sion ar ei swydd newydd, a phob lwc i Dewi ym misoedd olaf y paratoi ar gyfer Gŵyl Casnewydd ym mis Tachwedd – gobeithio y gwelwn ni chi yno!

Cofiwch hefyd am y Cwrs Gosod yng Ngwesty Pencerrig ar ail benwythnos Medi. Gallaf siarad o brofiad ei fod nid yn unig yn gyfle i gael arweiniad gan arbenigwyr fel Haf Morris, Alwena Roberts a Menna Thomas, ond hefyd yn benwythnos hwyliog iawn!

Mae'r rhagolygon ar gyfer dyfodol Cerdd Dant yn galonogol iawn – Penblwydd Hapus i'r Gymdeithas, ac ymlaen a ni tuag at y cant!

Cadeirydd newydd y Gymdeithas yw Nia Tudur, wyneb cyfarwydd ar lwyfannau ein gwyliau a'n heisteddfodau (heb sôn am fwletinaw newyddion SAC a Radio Cymru!), a chantores werin a cherdd dant heb ei hail.

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn rhai prysur iawn yn hanes y Gymdeithas, gyda newidiadau yn ei gweinyddiaeth, a pharatoi ar gyfer gweithgareddau'r dathlu. Mae cyrraedd 75 mlwyddiant yn dipyn o gamp,

LOGO NEWYDD!

Rhag ofn nad oes neb wedi sylwi, mae gan y Gymdeithas Cerdd Dant logo newydd. Bu hir bendronni ac addasu a phleidleisio (dyna yw democratiaeth!), ac ar ôl tua blwyddyn (wir!!) – dyma'r canlyniad.

Mater syml o symud gyda'r oes yw hyn, wrth gwrs. Gwnaed y gwaith dylunio gan Charli Britton, drymiwr yr enwog fand roc Edward H. Dafis – sy'n gwirioni ar gerdd dant hefyd medde fo...



Cerdd Dant ar y we

Mae gwefan y Gymdeithas yn cynnwys y newyddion diweddaraf i gyd, rhestr testunau'r ŵyl, swyddogion y Pwyllgor Gwaith ac is-bwyllgorau, hanes a datblygiad y grefft, a mwy. Defnyddiwch hi!

www.cerdd-dant.org